# THOMAS, JOHN ('Ieuan Ddu'; 1795 - 1871)

**Enw:** John Thomas
**Ffugenw:** Ieuan Ddu
**Dyddiad geni:** 1795
**Dyddiad marw:** 1871
**Rhyw:** Gwryw
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Cerddoriaeth; Perfformio
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd mewn ffermdy o'r enw Pibwr Llwyd, ger tref Caerfyrddin. Cafodd addysg dda, a bwriadwyd ei ddwyn i fyny yn arlunydd fel ei ewythr, ond bu'r ewythr farw. Agorodd ysgol yng Nghaerfyrddin a bu yno am gyfnod. Symudodd i Ferthyr Tydfil i gadw ysgol, ac arhosodd yno am 15 mlynedd. Aeth am ychydig i Machen, Mynwy, i gadw ysgol, ond dychwelodd i Ferthyr. Yn 1850 aeth i Bontypridd i gadw ysgol, ac oddi yno i Drefforest lle y treuliodd weddill ei oes. Cymerai ddiddordeb mewn cerddoriaeth yn ieuanc, a daeth yn gerddor a datganwr (bass) rhagorol. Cadwodd ddosbarthiadau cerddorol ym Merthyr a Phontypridd, a chodwyd to o gerddorion drwyddynt. Ef oedd yr arloeswr yng nghanu corawl Merthyr a'r cylch, ac enillodd y côr dan ei arweiniad wobrwyon eisteddfod y Fenni yn y blynyddoedd 1838 i 1845. Yn eisteddfod y Fenni, 1838, dyfarnwyd iddo y wobr am draethawd ar 'Gwahanol Beroriaethau Cymru a'r Iwerddon,' ac yn 1840 am draethawd ar 'Yr hanes gorau o Delyn Gwent a Morgannwg'; cyhoeddwyd y traethawd yn y *Cambrian Journal*, 1855. Yn 1845 dug allan ei gasgliad o alawon Cymreig dan yr enw *Y Caniedydd Cymreig*, yn cynnwys 104 o alawon Cymreig, a darnau eraill o'i waith ei hun, gyda geiriau Cymraeg a Saesneg. Ysgrifennodd i'r gwahanol gylchgronau, a dywedir iddo gynorthwyo Thomas Stephens yn y bennod ar gerddoriaeth yn ei *Literature of the Kymry*. Bu farw 30 Mehefin 1871, a chladdwyd ym mynwent Glyntaf, Trefforest.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

*Y Cerddor*, Chwefror 1891

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852)

David Morgans, *Music and musicians of Merthyr and district: Together with a list of eisteddfodau to the year 1901* (Merthyr Tydfil 1922)


## Gweithiau

William Thomas, Anerchiad i Ryddid,' *Yr awen lawen; sef, Casgliad o ganiadau dewisol* (Caerfyrddin 1851), tt.34-35

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18879144


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu